

Erdych! Mae
hi'n fis
Hydref!

Willia

RHIF 439 HYDREF 2021 PAPUR MISOL CYMRAEG
50 C ABERTAWE

ANEST YN CIPIO GWOBR GOFFA DAFYDD ROWLANDS

Cynhaliwyd Seremoni Gwobr Goffa Dafydd Rowlands ar Zoom eleni a braf yw cyhoeddi mai Anest Williams blwyddyn 13 oedd yr enillydd cwbl haeddiannol. Derbyniodd ei gwaith, sef stori a cherdd, ganmoliaeth uchel gan y beirniad John Evans. Fe nododd mai cryfder ei chais oedd ei gallu i ddangos meistrolaeth lwr o'r ddwy sgil sef ysgrifennu rhyddiaith afaelgar a chyfansoddi barddoniaeth rymus a chofiadwy. Bydd Anest yn derbyn Tlws arbennig ynghyd a sicr am £400. Ar y **dde mae llun o Anest gyda'i hathrawon Cymraeg, Gareth Williams, y Pennaeth Cynorthwyol, ac Anna Samuel, Pennaeth yr Adran Gymraeg.**



Ffarwelio â Helen a John



Da dweud bod Swyddfa Post Sgeti wedi ail-agor ac yn cynnig ystod eang o wasanaethau i'r gymuned. Diolch i Andrew Jones, y rheolwr, erbyn hyn mae modd siarad Cymraeg dros y cownter wrth brynu nwyddau neu bostio parcel. Ymatebodd Andrew a'i gydweithwyr yn gadarnhaol i geisadau'r cyhoedd am ddeunyddiau Cymraeg a stampiau Cymreig. Yn sicr maen nhw'n haeddu pob cefnogaeth.



Daw pennod hir yn hanes Côr Ty Tawe i ben eleni, gydag ymddediad Helen Gibbon, yr arweinydd, a John Evans, y cyfeilydd.

Mae'r ddau wedi rhoi 30 mlynedd o wasanaeth i'r côr. **Yn ystod y** cyfnod hwnnw cynhaliodd y côr ugeiniau o gyngherddau, a bu

ar ryw 15 o deithiau tramor. Bydd y côr yn cynnal digwyddiad arbennig i ffarwelio **â'r ddau.**

Yn y cyfamser, bydd y côr yn ailgychwyn ar ôl cyfnod Covid nos Fercher, Hydref 20, am 7 yn Nhy Tawe ac **yna'n cwrdd bob pythefnos,** gan obeithio ail-lansio eto yn y flwyddyn newydd.

Gwybodaeth y tu mewn am fathodyn aur arbennig yr Urdd ar achlysur dathlu

Newyddion trist

Wrth fynd i'r wasg, clywsom y newydd trist am farwolaeth Gill Campbell, Gendros. Mae *Willia* yn cydymdeimlo'n fawr â Robin a'r teulu.



Cylch Meithrin Meini Bach

Hoffem ddiolch yn fawr iawn i Menter Iaith Abertawe am grant o £445.00. Dyma flas o'r pethau prynwyd gyda'r grant.

Rydym wedi elwa yn fawr iawn o'r rhodd garedig yma, prynwyd llawer o adnoddau ar gyfer gweithgareddau tu allan, peth hefyd yn amlbwrpas ac yn ddelfrydol ar gyfer gweithgareddau tu fewn, mae'r adnoddau yn ein helpu i sbar-duno a chefnogi datblygiad Cymraeg ein plant yn yr ardal-oedd dysgu a chwarae. Mae'r plant yn mwynhau'r offer newydd yma c yn cael budd mawr ohonyn nhw'n barod, ac mae derbyn y rhain wedi rhoi hwb i ni fel Meithrinfa newydd y ardal Abertawe.

Mae Cylch Meithrin Meini

Bach yn mynd o nerth i nerth, rydym nawr ar agor 5 diwrnod yr wythnos ac yn cynnig Cylch, Gofal Dydd a Gofal Cofleidiol i Ysgol Gymraeg y Cwm Bon-y-maen. Mae ein rhifau'n cynyddu ac mae'r adnoddau newydd yn galluogi ni i ddarparu amryw o weithgareddau a chyfleodd chwarae a dysgu o ansawdd i'r plant trwy gyfrwng y Gymraeg.



Aelodaeth Yr Urdd ar agor i blant a phobl ifanc Cymru

Mae 2022 yn flwyddyn arbennig i'r Urdd, gyda'r mudiad yn dathlu ei chanmlwyddiant. Sefydlwyd gan Syr Ifan ab Owen Edwards yn 1922 gyda'r bwriad o amddiffyn y Gymraeg ac erbyn heddiw mae 55,000 o aelodau yn mwynhau profiadau unigryw a chyffrous trwy gyfrwng y Gymraeg. I nodi'r achlysur, bydd llwyth o weithgareddau a digwyddiadau hwyliog i blant a phobl ifanc o 8 – 25 oed yn cael eu trefnu ledled Cymru yn ystod 2022.

O chwaraeon i'r celfyddydau, gwaith dyngarol i wirfoddol, mae'r Urdd yn cynnig gymaint i blant a phobl ifanc Cymru. Ac ym mlwyddyn y can-

mlwyddiant, dyma gyfle i blant a phobl ifanc Cymru i fod yn rhan o hanes.

Mae pris aelodaeth eleni yn £10 y plentyn neu aelodaeth teulu am £25 (ar gyfer tri neu ragor o blant). Mae'r Urdd hefyd yn cynnig aelodaeth am £1 i unrhyw blentyn sy'n derbyn cefnogaeth ariannol drwy gynllun cinio ysgol am ddim. Gallwch ym-aelodi drwy ein gwefan: www.urdd.cymru/ymuno

Ddim rhwng 8 a 25 oed ond yn awyddus i fod yn berchen ar fathodyn i nodi canmlwyddiant yr Urdd? Mae rhoddion ariannol yn gymorth mawr i ni allu parhau i drefnu a chynnal gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg, ac rydym yn hynod ddiolchgar am bob rhodd. Eleni, gyda phob cyfraniad dros £20, bydd cefnogwyr yr Urdd yn derbyn bathodyn trwy'r post.

Am wybodaeth pellach mae croeso i chi fynd i'n gwefan: www.urdd.cymru/cyfrannu



Taith Maes Gellinudd

Mae aelodau Cymdeithas Edward Llwyd newydd gael eu taith gyntaf ar ôl cael mis o egwyl dros yr haf. Wel ia, mae hyd yn oed ein haelodau brwd yn cael **sbel o ymlacio dros yr haf! Ond mae'n braf cael ein sgidiau cerdded yn ôl ar ein traed unwaith eto.**

Roedd daith yn ardal Llangoed, Ynys Môn, yn Llanarmon yn lâl ac yn ardal Gellinudd ger Pontardawe yma yn y De. **Roedd hi'n ddiwrnod sych a braf, yn gynnes ond nid yn grasboeth ac ar ôl y dringo serth o'r pentref roedd golygfeydd godidog i ni fwynhau, a chael ein gwynt yn ôl ar yr un pryd.** Roedd ein harweinydd Liz Jones wedi byw yn yr ardal trwy gydol ei hoes ac yn falch iawn i rannu ei gwybodaeth efo ni. Gwaith glo oedd fan hyn wrth gwrs ac **fel bob hen ardal ddiwydiannol mae'n baradwys i gerddwyr a seiclwrwyr efo llawer o lwybrau yn dilyn rheilffyrdd a thramffyrdd ddoe.**

Roedd dwsin ohonom yn cerdded ac mewn hanner awr roedden ni wedi cwblhau'r her gyntaf, sef plodio fyny llwybr igam-ogam er mwyn cyrraedd tir uchel. Dilyn llwybr tu cefn i dai efo gerddi mawr a ddiolch yn dawel nad ni oedd **yn gorfod cadw nhw'n daclus. Cyrraedd Eglwys Cilybebyll ac roedd hi'n amser i ni gael ein picnic a dyna ni yn eistedd yn gyfforddus a pharchus ar wal y fynwent. Lle braidd yn ddiarffordd a dim ond sŵn yr adar yn canu oedd yn torri ar draws ein clebran.** Roedd yr haul yn tywynnu a'r byd yn braf. **Ond roedden i'n bell o'n ceir, felly ymlaen â ni ar lwyb-**

rau llawn mwyr duon. Dim amser i'w hel nhw ond mi wnaeth ddigon cael eu bwyta i roi lliw ar ein tafodau. I lawr ar lwybrau serth i ddyfnderoedd y coed ac ambell wriad i ni weld olion gwaith a chwt ble roedd y **powdr a'r tanwyr yn cael eu cadw.**

Roedd y cwt wedi cael ei adeiladu fel os oedd ffrwydrad roedd popeth yn **mynd trwy'r to ac nid trwy'r waliau.** Roedd inclein hir a serth yn mynd â **ni allan o'r coed felly pennau i lawr** ac un coes o flaen y llall tan i ni **gyrraedd beth oedden ni'n meddwl oedd y pen.** Ond wrth gwrs roedd pen arall. Dilyn lôn heibio hen dai teras a phob un efo hen greiriau o bell, bell yn ôl. Roedd fel bod y trigolion mewn cystadleuaeth.

Cyn bo hir roedden ni'n cerdded i lawr yr un llwybrau roedden ni wedi dringo yn y bore a dyna ni yn ôl wrth y ceir ac yn rhoi diolch i Liz am drefnu'r daith a'n tywys ni. A dyna beth sydd yn braf am y Gymdeithas, dyn ni'n dod i adnabod ardaloedd o Gymru bydden ni ddim wedi gweld a chael hanes newydd i'n haddysgu ni. Pishyn wrth bishyn mae'r darnau o'r jig-so yn dod at ei gilydd a dyn ni'n dysgu mwy ond na fydden ni byth yn **dysgu'r cwbl lot.**

Dewch efo ni, mae ein rhaglen o deithiau ar ein gwefan www.cymdeithasedwardllwyd.cymru ac edrychwch o dan 'Gweithgareddau'

Llwyddiant Cerddorol yn Ysgol Gyfun Gŵyr



Llwyddodd disgybl ym Mlwyddyn 11, David Ingham i ennill Diploma ar y delyn a'r fflwt. Camp a hanner!



Llwyddiant Peirianeg

Llongyfarchiadau i un o di-moedd Peirianeg Ysgol Gyfun Gŵyr a enillodd Wobr Ian Binning am y Defnydd Gorau o Egwyddorion Peirianeg **Fecanyddol. Mae'r wobwr yn dod wedi blwyddyn o waith caled iawn o dan amodau anodd.** Dyfarnwyd y wobwr i Grace Gormley (Capten), Millie Phillips, Kian Richards, Lily Williams, Dylan Brannigan a Christian Morton am eu gwaith yn dylunio dyfais i agor drysau yn ddigyffwrdd **mewn ymateb i heriau'r pandemig. Mae'r chwech hefyd wedi ennill gwobrau Aur CREST am eu gwaith.** Llongyfarchiadau i ail dim yr ysgol hefyd, sydd wedi ennill gwobrau Arian CREST am ymgymryd â'r un her.



Richard Rees a Siân James yn dod at Gymdeithas Gymraeg Treforys a'r Cylch



Mae'r ysgolion ar agor, mae capeli'r ardal yn cyfarfod a'r corau lleol yn ymgynnull i ymarfer, a nawr mae Gymdeithas Gymraeg Treforys yn

ailgychwyn. Daeth gyfarfodydd 2020 i ben yn ddisymwth ym mis Mawrth y flwyddyn honno, ond fe fyddwn yn ailgydio yn Raglen 2020 a'i symud ymlaen at 2021. Felly mae'r darlledwr a'r chynhyrchydd teledu Richard Rees yn dod atom ym mis Hydref eleni. Cynhelir y cyfarfod yn **Festri'r Tabernacl, Treforys am 7.00.y.h.** nos lau Hydref 21, sef trydedd nos lau y mis,

noson arferol ein cyfarfodydd. Mae Richard wedi teithio'r byd wrth ei waith ond mae testun y noson yn agos iawn at ei gartref. Treuliodd Richard 5 mlynedd amyneddgar yn paratoi ffilm ar Afon Tywi. Dangosir y ffilm yn y cyfarfod ac fe fydd Richard yno i gyflwyno'r ffilm ac i ddisgrifio sut aeth ati i greu'r campwaith. Edrychwn ymlaen at y cyfle o ddod ynghyd unwaith eto. Mae'r noson yn agored i unrhyw un sydd am daro mewn i weld y ffilm; sydd, wrth gwrs, o ddiddordeb arbennig i naturiaethwyr. Mae'r croeso cynnes arferol yn aros aelodau hen a newydd. Yn unol â gofynion y Llywodraeth bydd angen gwisgo mwgwd yn ein cyfarfodydd. Cynhelir cyfarfod mis Tachwedd nos lau **Tachwedd 18 am 7.00.y.h. yn Festri'r**



Tabernacl. Y cyn-aelod seneddol Siân James yw'n gwestai, (llun gan walesonline). Bydd

hi'n rhannu ei phrofiadau adeg streic y glowyr (1984) ac yn San Steffan. Edrychwn ymlaen at ein Cinio Nadolig yng Nghlwb Golff Langland am 1.00 y.p ar Ragfyr 16. Dyddiad newydd y daith i Arfon a Môn yw Mai 9-13 2022. Mae rhagor o wybodaeth am y gymdeithas a'r digwyddiadau ar gael oddi wrth David Gwyn John, (01792 773507).

Wilia

yng ngofal Elin Meek
Diolch yn fawr i'n cyfranwyr.

Anfonwch unrhyw beth a allai fod o ddiddordeb i'n darllenwyr i:
wilia@hotmail.co.uk
Croeso i unrhyw fath o ddeunydd; os oes gennych gerdd neu stori sy'n hel llwch yn y drôr!



Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Gŵyr yn ffarwelio â Phennaeth yr Adran Mathemateg

Ddiwedd mis Awst ffarweliodd Ysgol Gyfun Gŵyr â Mr Geraint Herbert-Evans, Pennaeth yr Adran Mathemateg ers Ionawr 1987.

Nodweddwyd ei flynyddoedd wrth lyw'r Adran gan arweinyddiaeth gadarn ac egniol. Sefydlodd Geraint y sylfeini **strwythurol angenrheidiol i'r Adran graidd** bwysig hon. Roedd ei arddull o arwain bob amser yn gywir, yn agored ac yn gynhwysol. Mynnodd fod yr Adran yn ennill ei **phlwy' fel un o adrannau Mathemateg** mwyaf llwyddiannus Cymru gyfan yn TGAU, a hynny am flwyddyn ar ôl blwyddyn. **Nid ar chwarae bach y bu i'r Adran** godi a chynnal safonau dros y degawd diwethaf o dan chwyddwydr mesurau ateb-olrwydd y Llywodraeth.

Roedd pob diwrnod gwaith yn hwyl tra oedd Geraint yn yr Adran. Creodd awyrgylch gefnogol a magodd hyder ei gydathrawon gan annog arbrofi a rhannu. El-

wedd pob aelod o'r Adran o'i ddoethineb ac roedd hefyd o hyd yn agored iawn i syniadau newydd. Mynnodd fod yr Adran yn mynd allan i gymdeithasu yn rheolaidd i ddathlu achlysuron pwysig. Yn ei eiriau ef, **"rhaid cael bywyd y tu allan i'r ysgol!"** Bu Mr Herbert-Evans yn addysgu yn yr ysgol ers trydedd flwyddyn ei hanes, ar ôl iddo dreulio pum mlynedd yn addysgu Mathemateg yn Ysgol Llanhari. **Bu'n arweinydd y wibdaith** sgio gydol ei gyfnod yn yr Ysgol, ac mae cenedlaethau o ddisgyblion wedi elwa o'r profiadau amrywiol a chyffrous y bu i'r gwibdeithiau hynny eu cynnig iddynt.

Bu'n gydarweinydd ar nifer o deithiau tramor o dan faner adrannau eraill – trefnydd heb ei ail a rheolwr ariannol gof alus a chywir. Roedd ei waith yn hanfodol i lwyddiant y teithiau hyn.

Bu'n un o hyfforddwyr timoedd rygbi'r Ysgol am ddeng mlynedd ar hugain, yn ystod cyfnod o lwyddiannau cenedlaethol yng Nghwpan Cymru.

Roedd yn gydweithiwr caredig a chefnogol.

Bu'n help mawr i staff yr Ysgol ar hyd y blynyddoedd – roedd yn hynod groesawgar wrth gyflwyno cynifer o staff newydd i fywyd a gweithgareddau'r Ysgol. **Mynnai fod staff yn ymaelodi â thim criced y staff, beth bynnag oedd eu diddordeb a'u dawn yn y gamp.**

Nodweddir Geraint gan hiwmor iach, ac roedd yn un o hoelion wyth yr Ystafell Athrawon pan nad oedd gweithgareddau allgyrsiol yn mynd â'i fryd. Dymunwn yn dda iawn i Geraint ar drothwy ymddeoliad a fydd, gobethio, yn un hir a dedwydd.

Geraint yn Ymddeol
O Gŵyr dymunwn i Geraint – y cawr addfwyn, enfawr ei faint
Hir oes o wên mewn henaint
A saib haeddiannol i'r saint.

Gareth Williams


Lansio Llyfr sy'n Dathlu Pen-blwydd Mudiad Meithrin yn 50 gyda Mererid Hopwood

Eleni, mae Mudiad Meithrin yn dathlu pen-blwydd arbennig wrth iddo ddathlu 50 mlynedd o ddarparu addysg Gymraeg o safon ers ei sefydlu yn 1971.

Bydd y gyfrol arbennig Cylch o Hanner Canrif – **llyfr sy'n dathlu 50 mlynedd** o waith Mudiad Meithrin, yn cael ei lansio yng nghwmni Mererid Hopwood, golygydd y gyfrol, am 2.00 brynhawn Sadwrn, 2 Hydref yn y Theatr yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth. Yn ystod y **lansiad cawn gyfle i ryfeddu at yr hyn mae'r** Mudiad wedi ei gyflawni dros yr hanner canrif ddiwethaf er budd addysg Gymraeg a thwf y Gymraeg yn ein cymunedau lleol. Meddai Mererid Hopwood, golygydd y llyfr:

“Un o gyfrinachau llwyddiant Mudiad Meithrin yw ei allu i adnewyddu ei hunan yn gyson o ddegawd i ddegawd. Yn hynny o **beth, nid yw'r Mudiad felly'n 'hen' o hanner canrif eleni ond yn hytrach yn 'newydd' o hanner canrif.** Gyda 1,500 o wirfoddolwyr, bron i 2,000 o staff yn y Cylchoedd, bron i 300 o staff yn ganolog a 22,000 o blant yn tyrru i **elwa o'i ddarpariaeth, mae'r Mudiad wedi tyfu** i fod yn bwerdy yng Nghymru. Mae ei stori yn un i godi calon pawb **sy'n caru Cymru, caru'r Gymraeg a charu plant.**”

Mae nifer o bobl wedi cyfrannu at y gyfrol **gan gynnwys rhai o'r sylfaenwyr cynnar**, cyn-swyddogion, a rhieni a phlant heddiw. Un arall sydd wedi cyfrannu at y gyfrol ac sydd wedi bod â chysylltiadau ers degawdau gyda'r Mudiad, **yw'r arbenigwr** blynyddoedd cynnar Siân Wyn Siencyn. Cawn gyfle i glywed am rai o atgofion difyr Siân yn ystod y lansiad hefyd.



Cyhoeddir y gyfrol hon gan Wasg Carreg Gwalch gyda chymorth Cyngor Llyfrau Cymru. Meddai Myrddin ap Dafydd o Wasg Carreg Gwalch:

“Mae'n fraint ber-sonol i mi a'r wasg i fod yn rhan o'r dathliad hwn. Roeddwn i wedi fy ngeni'n rhy gynnar i gael manteision y Mudiad, ond tyfais i **fynd yn swm y brwdfrydedd cychwynnol gan fod fy mam yn rhan o'r cyngor cenedlaethol oedd yn cyfarfod yn fisol yn Aber.** Roedd yn amlwg fod dat-blygiad cyffrous ar droed. Gwelais fan-teision amlwg gwaith y Cylchoedd lleol wrth i bob un o fy

mhlant fwynhau'r gorwelion newydd oedd **yn agor iddyn nhw. Ac mae'r wŷr cyntaf** wedi dilyn ôl eu traed! **Clamp o gyfraniad; clamp o stori - a gwych gweld cofnod lliwgar o hyn i gyd rhwng cloriau'r gyfrol.**”

Wrth edrych yn ôl ar gyflawniad y Mudiad dros yr hanner canrif ddiwethaf ac wrth edrych ymlaen at y dyfodol, gwledigaeth Dr Gwenllian Lansdown Davies, Prif Weithredwr presennol Mudiad Meithrin yw hyn:

“Holl genhadaeth a phwrpas ein gwaith yw defnyddio'r blynyddoedd cynnar fel cyfrwng i greu siaradwyr Cymraeg newydd o blith y plant na fyddai'n siarad Cymraeg fel arall ac mae'r profiad o ddysgu trwy chwarae yn holl bwysig yn ei hawl ei hun. Ond credaf mai gwaddol mwyaf y Mudiad fydd gweld nad oes mo'i angen ryw ddiwrnod, pan fydd ein cyfundrefn gofal ac addysg yn

darparu'r gefnogaeth orau posib i'r plant lleiaf a hynny'n awtomatig trwy gyfrwng y Gymraeg. Gobeithio y gwiredir hynny cyn cyrraedd y 100fed pen-blwydd!”

Yn ogystal â lansio'r llyfr Cylch o Hanner Canrif ym mis Hydref, dyma restr o rai o'r digwyddiadau eraill a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn i ddathlu 50 mlynedd y Mudiad:

Creu logo newydd gyfer dathlu'r 50 Cynnal cystadlaethau ar y thema 50 i'r cylchoedd ennill hamperi o nwyddau Cymreig

50 Cylch Meithrin wedi derbyn capsawl amser i'w claddu

50 Cylch Meithrin arall yn derbyn coed afalau i'w plannu yn yr Hydref.

Englyn wedi ei chyfansoddi yn arbennig gan Archdderwydd Cymru, Myrddin ap Dafydd ac wedi'i dylunio gan Lowri Roberts (enillydd y gystadlaethau ar raglen 'Y Stiwdio Grefft', S4C i greu murlun i'r Mudiad)

Cyfansoddi fideos 'Dawnsio gyda Dewin a Siani Sionc' wedi eu creu a'u rhannu i'n haelodau

Gŵyl Dewin a Dathlu wedi ei darlledu'n rhithiol ym mis Mehefin gyda Martyn Geraint, Siani Sionc, Dewin a Doti.

'Wythnos Parti Dathlu 50' wedi ei chynnal ym mis Gorffennaf 2021.

Dros 80 o enwogion Cymru wedi creu fideos i ddymuno pen-blwydd hapus i'r Mudiad

Brwydro i achub 'pensaerniaeth arbennig' Abertawe: Erthygl BBC Cymru Fyw

Mae pensaerniaeth yn rhan fawr o hunaniaeth yr artist Catrin James o Abertawe. Ers blynyddoedd bellach mae hi wedi bod yn dogfennu adeiladau modernaidd y ddinas sydd wedi cael dylanwad mawr ar ei gwaith a'i bywyd.

Catrin sydd yn rhedeg cyfrif y Swansea Modernist Society ar Instagram. Mae'n rhan o rwydwaith y Modernist Society o Fanceinion sydd yn dogfennu adeiladau modernaidd ar draws Prydain.

Catrin yn glanau murlun yng nghanol Abertawe

"Yn y 60au cynnar fe symudodd fy rheulu o



Drefforest i Abertawe achos roedd fy Nhad-cu wedi cael swydd fel gofalwr yn y *newly-built* Dyfatty Flats. Ar ôl hynny wnaeth e gael swydd arall fel gofalwr yn y Clinig Canolog," meddai Catrin.

"Roedd y llwydd yma yn rhan fawr o fy mhent-yndod a pan oeddwn yn ifanc iawn daeth y *built environment* yn Abertawe yn bwysig iawn i mi. Roedd e i gyd yn edrych yn newydd iawn."

Catrin yn glanau murlun yng nghanol Abertawe



"Roedd y rhan fwyaf o adeiladau canol Abertawe mewn steil *post-war* ac roeddwn i'n meddwl mai dyma beth oedd pensaerniaeth.

Roeddwn yn gwybod bod adeiladau hynach o gwmpas ond wrth gymharu fy ninas i â rhai eraill roeddwn yn teimlo bod bob man yn ed-

rych yr un peth a bod rhywbeth unigryw am Abertawe," meddai Catrin.

Roedd hyn yn ystod yr 1980au a daeth Catrin i garu'r adeiledd roedd hi'n gweld o'i chwmpas.

Y symudiad modernaidd Erbyn i Catrin gyrraedd ei harddegau roedd ei diddordeb dal yn gadarn ym myd pensaerniaeth felly aeth hi ymlaen i'w astudio ym Mhrifysgol Met Caerdydd yn 1998 cyn newid i gwrs Celf Gain.

"Roedd fy ngwaith i gyd yn ymwneud â phensaerniaeth *post-war* ac fe es i yn *obsessed* gyda phensaerniaeth

Bauhaus a'r *Stijl Movement*.

Cafodd pobl fel Walter Gropius, Ludwig Mies van der Rohe a Gerrit Rietveld effaith fawr arna i; pobl oedd wedi cael dylanwad enfawr ar bensaerniaeth yn Ewrop yn y 1920au a'r 30au."

Enghraifft gynnil o hanes bensaerniaeth Abertawe. Fe lwyddodd Catrin i arbed y bin

sbwriel yma wedi cynlluniau ddoed i'r wyneb i gael gwared arno.

Mae gwreiddiau'r symudiad modernaidd yn dyddio yn ôl i ddechrau'r 1900au pan aeth artistiaid ati i roi pwyslais ar leoli celf a phensaerniaeth ochr yn ochr â phrofiadau a gwerthoedd bywyd yn y cyfnod diwydiannol. Roedd dylanwad gwaith celf haniaethol artistiaid fel Henri Matisse, Paul Gauguin, Georges Braque a Bart van der Leek yn enfawr.

Cyn hir roedd penseiri fel Walter Gropius, Le Corbusier a Ludwig Mies van der Rohe wedi sefydlu ei hunain fel cewri cangen pensaernïol y symudiad yn yr 1920au a'r 30au.

Er mai ar ddechrau'r ganrif y ganwyd y symudiad fe barhaodd y ffigurau yma i ddylanwadu yn fyd-eang, a hynny hyd at y cyfnod wedi'r Ail Ryfel Byd.

"Wnaeth 'rhain ddylanwadu ar ddelwedd *post-war architecture* ar draws Prydain ac yn Abertawe," meddai Catrin.



Effaith y Rhyfel

Abertawe gafodd hi waethaf gan fomiau'r Natsiaid yng Nghymru yn ystod yr Ail Ryfel Byd - rhwng 1940 a 1943 cafodd y ddinas ei bomio dros 40 o weithiau.

Yn ystod Blitz 1941 lladdwyd 230 o bobl ac fe ddinistriwyd y ddinas yn llwyr. O ganlyniad fe newidiwyd delwedd y ddinas am byth.

"Roedd Abertawe wedi cael ei bomio gymaint yn ystod yr Ail Ryfel Byd, a dyna pam mae cymaint o bensaerniaeth fodernaidd yma," meddai.

"Wnaeth y ddinas godi fel ffenics o'r llwch' fel petai.

Ar y chwith Abertawe ar ôl y Blits, ar y dde Abertawe o'r awyr, mis Mai 1957

"Yn amlwg roedd Caerdydd wedi cael ei bomio ond doedd dim dinas arall yng Nghymru wedi ei chael hi mor ddrwg ag Abertawe. Wnaeth e siapio sut oedd Abertawe yn edrych wedi hynny."

Achub adeiladau

Un o flaenoriaethau Catrin yw sicrhau nad yw'r adeiladau a'r darnau pwysig yma o stori Abertawe'n diflannu.

Y bensaerniaeth yng nghanol Abertawe y mae Catrin mor hoff ohoni

Mae Catrin bellach yn rhan o The Twentieth Century Society sydd wedi ei chreu er mwyn ceisio rhestru ac achub adeiladau ym Mhrydain.

Ar hyn o bryd mae hi'n ceisio gwarchod

Canolfan Ddinesig Abertawe sydd yn enghraifft o adeilad Brutalist - sef steil sydd wedi deillio o'r



symudiad modernaidd. Cafodd yr adeilad ei godi rhwng 1979 a 1984 fel pencadlys i Gyngor Sir Gorllewin Morgannwg.

'Brutalism' ar ei orau, Canolfan Ddinesig Abertawe

"Mae ganddi steil arbennig ac mae'r interior yn hynod o brydferth," meddai Catrin. "Dyw e heb gael ei newid mewn 40 mlynedd. "Mae 'na deimlad cymysg yn y ddinas dros be'



ddylai ddigwydd i'r adeilad ond o leiaf ar hyn o bryd gallwn ni geisio dod a'r adeiladau i sylw'r bobl."

Ddoe a heddiw Un o bryderon Catrin yw'r perygl y bydd yr adeiladau hyn yn cael eu dymchwel gydag adeiladau

ddinas Does dim modd cymharu'r meddylfryd tu ôl i ben-saerniaeth fodernaidd â sut mae adeiladau yn cael eu llunio heddiw, yn ôl Catrin.

"Does dim cymaint o feddwl am yr utopian ideal fel oedd 'na ar ôl y rhyfel lle'r oedd na bwylsais i wneud pobl yn hapus a rhoi nhw mewn adeiladau sydd yn well i'w lles nhw.

"Roedd y symudiad Bauhaus eisiau gwneud i



newydd "dienaid" yn cael eu codi yn eu lle, meddai.

"Nawr yw'r amser i daro nodyn ar y steil yma. Mae Abertawe yn le eithaf arbennig ac mae lot yn digwydd yma ond mae'r steil 'ma yn dechrau diflannu a dim ond rhyw 70 oed yw llawer ohonyn nhw."

Enghraifft arall o draddodiad 'brutalism' yn y

bobl deimlo yn well yn yr adeiladau 'ma gyda ffenestri mawr gan feddwl am ble mae'r haul... mae'r ochr yma wedi mynd dyddiau yma."

Er hyn mae Catrin yn ffyddiog fod agweddau yn newid, yn enwedig ymhlith yr ifanc.

"Fi'n credu bod ffasiwn yn newid a bod pobl nawr yn dechrau gwerthfawrogi pensaerniaeth ar ôl Yr Ail Ryfel Byd a brutalism dros y blynyddoedd diwethaf. Rwy'n teimlo fod pobl ifanc yn enwedig yn dangos diddordeb."



HYD 29 2021

MORGAN ELWY + DAFYDD HEDD

NOS WENER 29/10/21

Tŷ Tawe, Abertawe
ES ADV / MWY AD Y DRWS

MENTER IAITH ABERTAWE | RHIF CWMNI: 08001822



ADOLONIANT TY TAWE WEDI CYCHWYN: CROESO MAWR I HUW DYLAN A MEI GWYNEDD A MABLI

Mae rhaglen lawn wedi ei pharatoi ar gyfer tymor yr hydref. Gallwch gael tocynnau yn Siop Ty Tawe neu yn Derricks Music yn Stryd Rhydychen. Mae manylion y digwyddiadau i'w gweld hefyd ar wefan Joio Abertawe. Mae nosweithiau i ddod yn cynnwys Llwybr Llaethog a Pys Melyn, Georgeia Ruth a Gareth Bonello, a Morgan Elwy a Dafydd Hedd.

LLWYBR LLAETHOG
+
PYS MELYN

Tŷ Tawe, Abertawe
15/10/21 - £12
19:00-22:00

RHIF CWMNI = 06693822

Noson Allan Night Out
Cymor Callyfikau Cymru Arts Council of Wales
Menter Iaith Abertawe

MENTER IAITH ABERTAWE + BUBBLEWRAP COLLECTIVE YN CYFLWYNO...

Georgia Ruth Gareth Bonello
(The Gentle Good)

12.11.2021 / 7PM / £18

TY TAWE, 9 STRYD CHRISTINA, ABERTAWE SA1 4EW

TOCYNNAU AR GAEL O: TICKETSOURCE.CO.UK/MENTER-IAITH-ABERTAWE

Menter Iaith Abertawe, Cymor Callyfikau Cymru, Arts Council of Wales

Tŷ Tawe, 10yb - 12yh
BOB BORE SADWRN

CAFFI BORE SADWRN

Mwynhaŵr Gymraeg

DEWCH DRAW AM SGWRS A PHANED!
CROESO I DDYSGWYR A SIARADWYR RHUGLI

SPEAK WELSH IN AN INFORMAL SETTING. SESSIONS FREE OF CHARGE. COME ALONG FOR A CHAT AND A CUPPA!

MENTER IAITH ABERTAWE | RHIF CWMNI: 06693822